Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru

# Nodyn cynghori ar gyfer milfeddygon sy'n rhoi presgripsiwn ar gyfer brechlyn anweithredol BTV-3 yng Nghymru

---

Annwyl Gyfeillion,

Rwy'n ysgrifennu atoch i ofyn am eich cymorth i sicrhau bod y defnydd a wneir o frechlynnau BTV-3 yn cael ei fonitro'n dda. Dylai'r data a gesglir drwy wneud hynny fod o fudd inni i gyd a'n helpu gyda'n gwaith dadansoddi wrth inni barhau i feithrin dealltwriaeth o'r clefyd hwn a'r brechlynnau ar ei gyfer. Mae'r llythyr hwn yn amlinellu'r hyn yr wyf yn gofyn ichi ei wneud. Gwn y byddwch eisoes yn gwneud hyn, ond er mwyn pwysleisio unwaith eto pa mor bwysig ydyw, gofynnir ichi fynd ati'n ofalus i gadw cofnod o'r holl frechlynnau yr ydych yn rhoi presgripsiwn ar eu cyfer a rhoi gwybod i bob awdurdod perthnasol am unrhyw effeithiau andwyol.

Rwy'n awyddus inni weithio gyda'n gilydd i roi'r cymorth a'r cyngor gorau posibl i geidwaid anifeiliaid am frechlynnau BTV-3. Yn ogystal â gofynion MRCVS a'r rhwymedigaethau cyfreithiol arferol, rwy'n gofyn am eich cydweithrediad penodol gyda'r canlynol:

1. Dylai'r presgripsiwn ar gyfer y brechlyn gael ei roi, yn ysgrifenedig neu'n ddigidol, gan y milfeddyg preifat (PVS) sydd fel arfer yn gyfrifol am ofalu am yr anifeiliaid a fydd yn cael y brechlyn.

2. Dylai'r milfeddyg preifat gadw, am gyfnod o 5 mlynedd o leiaf, gofnod ysgrifenedig neu ddigidol (y dylid ei ddarparu i arolygydd os bydd gofyn gwneud hynny) o:
   a. Nifer y dosau a archebir oddi wrth y cyfanwerthwr.
   b. Nifer y dosau a gyflenwir i geidwaid anifeiliaid.

3. Dylai'r milfeddyg preifat sy'n rhoi'r presgripsiwn roi gwybod i Llywodraeth Cymru cyn pen 7 diwrnod ei fod wedi gwneud hynny, gan ddefnyddio'r ffurflen adrodd ar ragnodi brechlyn BTV-3. Mae'r ffurflen yn gofyn am yr wybodaeth isod:
   a. Y CPH lle mae'r anifeiliaid ar yr adeg y rhoddir y presgripsiwn.
   b. Enw cynnyrch y brechlyn a rhif y swp.
   c. Rhywogaethau a nifer yr anifeiliaid y bwriedir y presgripsiwn ar eu cyfer.
   ch. Unrhyw gyfarwyddiadau arbennig sy'n cael eu rhoi yn y presgripsiwn.

4. Dylech roi gwybod i’r cwmni fferyllol perthnasol (fel y manylir ar y daflen yn y pecyn) neu i'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol am unrhyw sgil-effeithiau niweidiol sy'n gysylltiedig â'r brechlyn, gan gynnwys unrhyw amheuon am ei effeithiolrwydd, cyn pen 7 diwrnod calendr.

Caiff ceidwaid anifeiliaid roi'r brechlynnau eu hunain yn unol â chyfarwyddiadau’r gwneuthurwr a chyfarwyddiadau milfeddygol, ac yn unol â'r rheoliadau perthnasol ar feddyginiaeth filfeddygol.

Llofnodwyd

Richard Irvine

Prif Swyddog Milfeddygol Cymru